CANLLAWIAU

# Profion asymptomatig: lleoliadau addysg a gofal plant

Canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg a gofal plant ar gyfer profion ddwywaith yr wythnos gartref.

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Chwefror 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 2 Mawrth 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Beth yw profion asymptomatig?

Pam ydych yn cynnig profion?

Beth yw’r profion asymptomatig ar gyfer addysg a gofal plant?

Pwy sy'n gymwys i gael profion rheolaidd?

Pa ddysgwyr fydd yn gymwys i gael profion rheolaidd?

A ddylai dysgwyr a chanddynt anghenion cymorth ychwanegol gymryd rhan yn y profion hyn sy’n cael eu cynnig?

Nid wyf ar y rhestr o bobl gymwys, ond rwy’n gweithio mewn lleoliad(au) addysg/gofal plant. Ydy hyn yn golygu na fydd modd imi gael prawf rheolaidd?

Pa leoliadau all gynnig profion rheolaidd?

Ai rhywbeth gwirfoddol yw hyn?

A oes rhaid imi gymryd prawf er mwyn cael mynd i’r ysgol/coleg?

Beth yw Prawf Llif Unffordd?

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng profion PCR rheolaidd a Phrofion Llif Unffordd?

Pam ydych chi'n gofyn i leoliadau addysg a gofal plant gynnal profion rheolaidd?



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## A yw'r profion yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim?

## Sut ydw i'n archebu fy mhrofion?

## Rwy'n bennaeth/rheolwr – sut dylwn i fynd ati i archebu profion ar gyfer fy staff?

## Pa mor aml ddylwn i gymryd y prawf?

## When should I take the test?

## Oes rhaid i mi gymryd y prawf ar yr un diwrnodau bob wythnos?

## Os ydw i wedi cael coronafeirws o'r blaen neu wedi derbyn y brechlyn, a ddylwn i barhau i gymryd profion ddwywaith yr wythnos?

## Rwyf wedi cael fy mrechu – oes angen imi gymryd y profion o hyd?

## Sut bydd y broses brofi yn gweithio?

## Pa mor gywir yw canlyniad prawf llif unffordd?

## Sut mae cymryd prawf?

## How do individuals with complex needs undertake the test?

## Beth ddylwn i ei wneud os yw'r canlyniad yn bositif?

## Beth ddylwn i ei wneud os yw'r canlyniad yn negatif?

## Sut mae gwaredu'r pecyn prawf?

## Oes modd defnyddio'r prawf ar gyfer aelod o fy nheulu?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.

Sut dylwn storio'r profion?

Pam nad yw plant/dysgwyr yn rhan o'r system brofi hon?

Why are younger children not included in this testing approach?

# Beth yw profion asymptomatig?

Profion asymptomatig yw profi pobl am y coronafeirws nad ydynt yn dangos unrhyw rai o'r symptomau arferol er mwyn gweld a ydynt yn cario'r feirws heb wybod.

Os oes gan unigolion symptomau'r coronafeirws, dylent **hunanynysu**, trefnu i gael prawf adwaith cadwynol ploymerasau (PCR) (gallwch drefnu prawf drwy **archebu ar-lein** neu drwy ffonio 119) a pheidio â defnyddio'r prawf llif unffordd.

# Pam ydych yn cynnig profion?

Nod y profion yw canfod y rhai sy'n cario'r feirws heb wybod yn gyflym fel y gallant hunanynysu. Bydd hyn yn golygu bod llai o bobl yn dal y feirws, gan leihau nifer y bobl sy'n gorfod hunanynysu ar ôl dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi cael prawf positif. Bydd hyn yn lleihau'r effaith y mae'r coronafeirws yn ei chael ar addysg a gofal plant wyneb yn wyneb.

Bydd y profion hyn hefyd yn ein helpu i gael darlun mwy clir o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn ein hysgolion a'n lleoliadau, gan roi sicrwydd i'r gymuned ehangach.

Cydnabyddir bod profion asymptomatig yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyfraddau achosion i ddechrau, ond bod y cynnydd hwn yn debygol o ostwng ar ôl i'r rhai sydd wedi cael prawf positif hunanynysu ac ar ôl i'r cadwyni trosglwyddo gael eu torri.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Beth yw'r profion asymptomatig ar gyfer addysg a gofal plant?

Bydd profion llif unffordd ar gael i leoliadau addysg a gofal plant a chwarae cofrestredig i'w dosbarthu i unrhyw unigolion cymwys sydd am gymryd rhan. Bydd hyn yn eu galluogi unrhyw un sy'n gymwys i gymryd prawf am y coronafeirws gartref ddwywaith yr wythnos. Mae'r profion hyn yn darparu canlyniad o fewn 30 o funudau ac nid oes angen eu prosesu mewn labordy.

# Pwy sy'n gymwys i gael profion rheolaidd?

Mae pob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg a gofal plant yn gymwys i gael eu profi.

Mae hyn yn cynnwys:

- penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol
- athrawon/darlithwyr
- ymarferwyr a rheolwyr gofal plant a chwarae
- gwarchodwyr plant
- Pob aelod o staff cymorth, er enghraifft:
  - gweithwyr cymorth dysgu
  - gweithwyr cymorth AAA
  - staff arlwyo
  - staff glanhau
  - gofalwyr/staff cynnal a chadw
  - cynorthwywyr gweinyddol
  - cynorthwyydd addysgu
- gweithwyr cludiant
- myfyrwyr HCA

Hefyd, bydd holl ddisgyblion hŷn ysgolion uwchradd ym mlynyddoedd 10-13 a holl ddysgwyr Addysg Bellach yn gallu cael profion llif unffordd er mwyn cymryd profion asymptomatig rheolaidd ddwywaith yr wythnos, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y staff a restrir uchod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Pa ddysgwyr fydd yn gymwys i gael profion rheolaidd?

Rydym yn gobeithio y bydd pob dysgwr ym mlynyddoedd 10 i 13 a phob dysgwr mewn colegau addysg bellach yn gallu cael profion llif unffordd pe byddent yn dewis cymryd prawf asymptomatig ddwywaith yr wythnos.

## A ddylai dysgwyr a chanddynt anghenion cymorth ychwanegol gymryd rhan yn y profion hyn sy'n cael eu cynnig?

I rai dysgwyr a chanddynt anghenion cymorth ychwanegol, mae'n bosibl na fydd yn briodol cymryd profion o dan unrhyw amgylchiadau. Dylai ysgolion weithio gyda rhieni/gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio agosaf gyda disgyblion a chanddynt anghenion cymorth ychwanegol i benderfynu a fydd y profion yn briodol, gan ystyried anghenion yr unigolyn.

Mae asesiadau risg yn chwarae rôl allweddol wrth ystyried anghenion unigol pobl ifanc a chanddynt anghenion cymorth ychwanegol, a gellid eu defnyddio i ystyried a fydd y rhaglen hunan-brofi yn briodol (gan ystyried y potensial am gefnogaeth gan rieni neu warchodwyr).

## Nid wyf ar y rhestr o bobl gymwys, ond rwy'n gweithio mewn lleoliad(au) addysg/gofal plant. Ydy hyn yn golygu na fydd modd imi gael prawf rheolaidd?

Dylai pawb sy'n gweithio'n rheolaidd mewn lleoliadau addysg a gofal plant bob dydd gael cynnig profion. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu ffyrdd o ddarparu profion i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n rheolaidd mewn lleoliadau addysg a gofal plant, ond nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag un ysgol neu leoliad. Mae hyn yn cynnwys proffesiynau megis gyrwyr cludiant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ysgolion neu golegau, athrawon cyflenwi, hebryngwyr teithio a gwarchodwyr plant.

## Pa leoliadau all gynnig profion rheolaidd?

O ran lleoliadau addysg:

- Ysgolion Cynradd.
- Ysgolion Uwchradd.
- Ysgolion Arbennig.
- Ysgolion Annibynnol.
- Colegau Arbenigol Annibynnol.
- Colegau Addysg Bellach.
- Ysgolion Canol.
- Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Mae’r holl staff gofal plant a chynlluniau chwarae sydd wedi’u cofrestru yn gymwys i gael eu profi, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal dydd a gwarchodwyr plant. Mae hyn yn cynnwys:

- gofal dydd llawn
- gofal sesiynol
- gofal crèche
- grwpiau chwarae/Cylchoedd Meithrin
- darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio
- darpariaeth Dechrau'n Deg

## Ai rhywbeth gwirfoddol yw hyn?

Ie, rhywbeth gwirfoddol yw cymryd prawf, ond rydym yn annog pawb sy'n gymwys i fanteisio arno er mwyn lleihau ymhellach y risg o drosglwyddo asymptomatig.

Os oes gan staff symptomau’r coronafeirws, dylent drefnu i gael prawf PCR (gallwch archebu **ar-lein** neu drwy ffonio 119) a pheidio â defnyddio'r prawf llif

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

unffordd.

## A oes rhaid imi gymryd prawf er mwyn cael mynd i’r ysgol/coleg?

Nac oes. Diben y profion hyn yw ceisio canfod y rhai sy’n cario’r feirws heb ddangos unrhyw symptomau yn gyflym a gofyn iddynt hunanynysu. Bydd hyn yn tarfu llai ar addysg wyneb yn wyneb.

Nid oes unrhyw brawf yn berffaith ac ni ddylai profion llif unffordd gael eu defnyddio fel cadarnhad nad yw’r unigolyn yn cario’r feirws er mwyn i’r ysgol neu’r coleg oherwydd weithiau mae’n bosibl na fydd y prawf yn canfod bod rhywun yn heintus.

Ar ôl i’r unigolyn ddeall y broses brofi a’i fod wedi darllen yr hysbysiad preifatrwydd, os yw’n dewis cymryd rhan mae’n ymrwymo i weinyddu’r prawf a darparu ei ganlyniadau ei hun. Dylai lleoliadau addysg a gofal plant sicrhau bod unigolion yn darparu eu canlyniadau (positif, negatif neu annilys) i’r GIG drwy’r porth canlyniadau. Dylai’r canlyniadau gael eu rhannu â’r gweithle hefyd i gefnogi’r gwaith olrhain cysylltiadau lleol.

## Beth yw Prawf Llif Unffordd?

Mae profion llif unffordd (Antigen) yn prosesu samplau swab o’r trwyn a’r gwddf. Mae'r ddyfais, sy'n edrych fel prawf beichiogrwydd yn y cartref, yn canfod protein (antigen) a gynhyrchir gan y feirws. Os yw'n bresennol yn sampl y person, bydd llinell liw yn ymddangos ar y ddyfais rhwng 20 i 30 munud ar ôl prosesu.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng profion PCR rheolaidd a Phrofion Llif Unffordd?

Mae'r prawf RT-PCR a'r prawf llif unffordd yn gofyn am gymryd swab o'r trwyn a'r gwddf. Defnyddir yr RT-PCR ar gyfer y rhai sydd â symptomau, gan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddadansoddi’r swab mewn labordy.

Defnyddir prawf llif unffordd ar gyfer pobl heb symptomau. Mae modd dadansoddi'r swab gan ddefnyddio dyfais llif unffordd gartref, fel y ceir canlyniadau o fewn awr. Er nad yw profion llif unffordd mor sensitif â phrofion RT-PCR sy'n cael eu prosesu mewn labordai, mae cyngor gwyddonol wedi dangos bod cywirdeb profion llif unffordd cyson gystal â phrofion RT-PCR, a dyma pam rydym yn ailadrodd y profion ddwywaith yr wythnos.

## Pam ydych chi'n gofyn i leoliadau addysg a gofal plant gynnal profion rheolaidd?

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i staff lleoliadau addysg a gofal plant gael profion ddwywaith yr wythnos. Mae'r profion yn wirfoddol, er bod pawb sy'n cael cynnig y prawf yn cael eu hannog i fanteisio ar y cynnig.

Mae lleoliadau addysg a gofal plant wedi gweithredu'r mesurau rheoli a amlinellir yng nghanllawiau’r sector i leihau'r risg o drosglwyddo. Bydd y profion yn galluogi lleoliadau i leihau'r risg hon ymhellach drwy atal pobl heb unrhyw symptomau rhag trosglwyddo’r coronafeirws.

Mae cynlluniau peilot diweddar yng Nghymru a'r DU yn ehangach wedi dangos sut y gall profion rheolaidd, cyflym gael eu defnyddio yn effeithiol a chael effaith gadarnhaol mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Mae'r drefn profion rheolaidd yn profi unigolion asymptomatig – y rhai heb symptomau’r coronafeirws. Os yw person asymptomatig yn cael canlyniad prawf positif drwy'r profion rheolaidd (gweler y cyngor pellach ar brofion positif isod), rhaid iddo **hunanynysu** yn unol â’r canllawiau er mwyn osgoi trosglwyddo'r feirws ymhellach. O ganlyniad, bydd profion ddwywaith yr wythnos yn canfod achosion o’r coronafeirws na fyddai wedi dod i’r golwg fel arall, gan helpu i atal y coronafeirws rhag lledaenu yn y gymuned.

Er bod profion ddwywaith yr wythnos yn ein helpu i atal lledaeniad yn y gymuned, mae'n bwysig i leoliadau barhau i weithredu'r mesurau rheoli a amlinellir yn y canllawiau sy’n benodol iddyn nhw er mwyn lleihau'r risg o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

drosglwyddo a'r tebygolrwydd o ganlyniadau profion positif.

# A yw'r profion yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim?

Ydyn. Ni chodir tâl am y profion.

# Sut ydw i'n archebu fy mhrofion?

Anfonir pecynnau profion i bob ysgol, coleg, lleoliad darpariaeth amgen a lleoliad gofal plant cofrestredig sydd ar agor o'r wythnos sy'n cychwyn Chwefror 22.

Bydd yr ysgol neu'r lleoliad yn ymgymryd â'r gwaith o gasglu'r profion (7 mewn bocs) dros staff sydd am gael prawf rheolaidd.

O ran staff nad ydynt am gael y prawf ddwywaith yr wythnos, cânt ddal i ddod i'r lleoliad cyn belled nad ydynt wedi dod i gysylltiad ag achos positif, datblygu symptomau neu gael canlyniad positif i brawf COVID-19 drwy raglen brofi arall.

# Rwy'n bennaeth/rheolwr – sut dylwn i fynd ati i archebu profion ar gyfer fy staff?

Bydd cyflenwad cychwynnol o becynnau yn cael ei anfon yn awtomatig i bob ysgol, coleg, lleoliad darpariaeth amgen a lleoliad gofal plant cofrestredig sydd ar agor o'r wythnos yn cychwyn Chwefror 22 2021.

Bydd cyflenwad pellach o becynnau profi yn cael eu hanfon yn awtomatig at ysgolion a lleoliadau.

Nes mlaen eleni bydd modd i ysgolion a lleoliadau reoli eu cyflenwad o brofion drwy wefan. Bydd rhagor yn cael ei ddarparu i ysgolion a lleoliadau cymwys pan fydd hwn ar gael.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Pa mor aml ddylwn i gymryd y prawf?

Argymhellir y dylid cymryd prawf ddwywaith yr wythnos, h.y. dau brawf 3 i 4 diwrnod ar wahân i'w gilydd bob wythnos. Argymhellir hefyd y dylid gwneud y profion cyn i chi gyrraedd y lleoliad. Mater i'r unigolyn a'r lleoliadau unigol yw gwneud trefniadau i bennu ar ba ddiwrnodau mae'r profion yn cael eu cymryd.

## When should I take the test?

It is  strongly recommended that tests are taken before you attend the setting in the morning. The further way from attendance at your setting the less representative the test result will be of your current infection state.

## Oes rhaid i mi gymryd y prawf ar yr un diwrnodau bob wythnos?

Oes, dylech ddilyn amserlen sefydlog wrth gymryd y profion, e.e. yr un diwrnodau a'r un amser bob wythnos.

## Os ydw i wedi cael coronafeirws o'r blaen neu wedi derbyn y brechlyn, a ddylwn i barhau i gymryd profion ddwywaith yr wythnos?

Dylech. Gan ystyried nifer yr achosion presennol o'r feirws a'r angen dybryd i leihau ar y trosglwyddo, anogir pawb sy'n cael cynnig prawf ddwywaith yr wythnos i fanteisio ar y cynnig hwnnw, hyd yn oed y rhai sydd wedi cael coronafeirws o'r blaen neu wedi cael y brechlyn.

Ni ddylech gymryd y prawf llif unffordd o gwbl yn ystod cyfnod o hunanynysu yn dilyn canlyniad positif i brawf coronafeirws.

## Rwyf wedi cael fy mrechu – oes angen imi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## gymryd y profion o hyd?

Oes, mae’r prawf llif unffordd yn cadarnhau p’un a ydych yn heintus i bobl eraill. Y cyngor gwyddonol cyfredol yw y dylai unigolion sydd wedi’u brechu gymryd y profion o hyd. Caiff y sefyllfa ei hadolygu’n rheolaidd, a rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau yn y cyngor drwy arweinwyr ysgolion a lleoliadau.

## Sut bydd y broses brofi yn gweithio?

Darperir pecynnau profion llif unffordd cartref ar gyfer staff lleoliadau addysg a gofal plant, y bydd modd iddynt eu defnyddio ddwywaith yr wythnos, bob 3 i 4 diwrnod, cyn dod i’r gwaith, ac yn ddelfrydol yn y bore. Nid oes angen prosesu’r profion hyn mewn labordy, a gallant roi canlyniad cyflym o fewn tua 30 munud. Nid oes gorfodaeth ar unrhyw un i wneud y prawf, ac ni fydd angen darparu tystiolaeth o ganlyniad negatif, na darparu tystiolaeth o fod wedi gwneud prawf, cyn gallu dychwelyd i’r gwaith yn gorfforol. Fodd bynnag, rydym wir yn annog pawb i fanteisio ar y ddarpariaeth.

Mae profion llif unffordd wedi’u defnyddio’n eang ac yn llwyddiannus i ganfod achosion asymptomatig o COVID-19. Mae gallu gwneud y prawf yn gyflym ac yn hwylus yn help i ganfod y feirws mewn unigolion asymptomatig, na fyddent fel arall wedi cael eu profi. Mae profion llif unffordd wedi’u cymeradwyo gan Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, ac maent yn hollbwysig yn y frwydr yn erbyn y feirws. Nid yw’r rhaglen brofi ar gyfer unigolion asymptomatig yn disodli’r polisi profi ar gyfer y rheini sydd â symptomau. Bydd disgwyl o hyd i unrhyw un sydd â symptomau, p’un a ydynt yn manteisio ar y system brofi ar gyfer unigolion asymptomatig ai peidio, fynd am brawf PCR a dilyn canllawiau Profi, Olrhain, Diogelu y GIG, gan hunanynysu, hyd nes y byddant wedi cael eu canlyniad.

Rhaid i leoliadau a staff barhau i ddilyn yr holl fesurau diogelu cyfredol, nid yw profion ar gyfer unigolion asymptomatig yn disodli’r rhain nac yn eu gwneud yn llai pwysig wrth reoli’r feirws.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Pa mor gywir yw canlyniad prawf llif unffordd?

Mae profion llif unffordd wedi'u defnyddio'n eang ac yn llwyddiannus i ganfod COVID-19 mewn unigolion asymptomatig. Mae gallu gwneud y prawf yn gyflym ac yn hwylus yn help i ganfod y feirws mewn unigolion asymptomatig, na fyddent fel arall wedi cael eu profi.

Mae gwaith gwerthuso clinigol helaeth wedi'i wneud ar brofion llif unffordd. Mae gwerthusiadau Public Health England a Phrifysgol Rhydychen yn dangos bod y profion hyn yn ddigon cywir a sensitif i gael eu defnyddio yn y gymuned at ddibenion sgrinio a goruchwylio.

Mae profion llif unffordd yn gallu adnabod achos o heintusrwydd cynnar a phryd y mae unigolyn ar ei fwyaf heintus. Mae'r unigolion hyn yn tueddu i ledaenu'r feirws i lawer o bobl, ac felly mae gallu'r prawf i wybod pwy ydynt yn dal i fod yn bwysig.

Mae'n bwysig cofio mai haen ychwanegol yw'r profion hyn o ran y mesurau diogelu iechyd, yn ogystal â gorchuddion wyneb, cadw pellter cymdeithasol ac ati. Rhaid i bobl sy'n cael canlyniad negyddol gydymffurfio o hyd â mesurau diogelu perthnasol eu gweithle.

# Sut mae cymryd prawf?

Nid oes angen unrhyw hyfforddiant. Gallwch wneud y prawf eich hunan, ac fe fyddwch yn derbyn cyfarwyddiadau clir gyda'r profion, ond yn gryno:

- Golchwch a sychwch eich dwylo'n drylwyr.
- Agorwch y pecyn prawf (gan ofalu peidio â chyffwrdd â'r rhan feddal).
- Agorwch eich ceg yn llydan. Defnyddiwch y swab i rwbio cefn eich gwddf yn gadarn bedair gwaith ar bob ochr.
- Tynnwch y swab allan o'ch ceg heb gyffwrdd â'ch dannedd, eich tafod na'ch gymiau.
- Rhowch y swab yn ofalus yn eich trwyn (2.5cm y tu mewn) a'i rwbio ar hyd leinin eich ffroenau 4 i 5 gwaith.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Tynnwch y swab allan (gan ofalu nad yw'n cyffwrdd ag unrhyw beth).
- Rhowch yn y tiwb i'w brofi am 30 munud ac arhoswch am y canlyniad (bydd llinell liw yn ymddangos os yw'n bositif).
- Golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl gwaredu'r prawf.

Bob tro y bydd unigolyn yn cymryd prawf bydd angen iddo gofnodi'r canlyniad drwy'r porth canlyniadau ar-lein (y gellir cyrraedd ato drwy ffôn clyfar) neu drwy ffonio'r rhif a ddarperir yn y pecyn. Bydd angen gwneud hyn bob tro wrth gymryd prawf, boed yn ganlyniad negatif neu bositif.

## How do individuals with complex needs undertake the test?

For some learners with additional support needs it may not be possible to self-swab and process the tests. In these cases it may be possible for parents or guardians to support the process. It is for the individual and their parents/guardian to consider if participation with the testing programme is appropriate, taking into consideration the needs of the individual.

## Beth ddylwn i ei wneud os yw'r canlyniad yn bositif?

Os yw'r canlyniad yn bositif bydd angen i chi gofnodi hyn drwy'r porth canlyniadau ar-lein. Rhaid cofnodi pob canlyniad. Bydd angen ichi hefyd roi gwybod i'ch lleoliad (a bydd angen i leoliadau gofal plant hysbysu AGC) ac yna cadarnhau'r canlyniad positif drwy drefnu prawf PCR mewn canolfan brofi cyn gynted â phosibl. Gallwch drefnu prawf drwy archebu **ar-lein** neu drwy ffonio 119.

Yn y cyfamser, rhaid i chi ddilyn y **canllawiau hunanynysu** a gwneud yn siŵr eich bod chi a phob aelod o'ch aelwyd yn hunanynysu am 10 diwrnod. Dylai'r cyfnod hwn ddechrau yn syth ar gael canlyniad prawf positif o'r prawf llif unffordd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Os yw canlyniad y prawf PCR yn negatif gallwch ddod â'ch cyfnod hunanynysu i ben, ac ailddechrau cymryd prawf ddwywaith yr wythnos.

## Beth ddylwn i ei wneud os yw'r canlyniad yn negatif?

Os yw canlyniad y prawf yn negatif, bydd angen i chi gofnodi hyn drwy'r porth canlyniadau ar-lein ond ni fydd angen cymryd camau pellach a gallwch barhau â'ch diwrnod fel arfer. Rhaid cofnodi pob canlyniad.

## Sut mae gwaredu'r pecyn prawf?

Beth bynnag fydd canlyniad y prawf, unwaith y bydd eich prawf wedi'i gwblhau, rhowch holl gynnwys y pecyn prawf a ddefnyddiwyd yn y bag gwastraff a ddarperir. Seliwch y bag, a'i gadw mewn lle diogel am 72 awr. Wedi hyn, rhowch y bag yn eich bin gwastraff cartref cyffredinol.

## Oes modd defnyddio'r prawf ar gyfer aelod o fy nheulu?

Na, mae'r profion ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg, gofal plant a gwaith chwarae yn unig. Mae hyn yn golygu nad oes modd defnyddio'r profion ar gyfer aelodau o'r teulu.

Bydd yn rhaid llofnodi ar gyfer pob prawf a bydd y defnydd yn cael ei fonitro.

## Sut dylwn storio'r profion?

Dylid storio'r pecynnau profion dan do mewn lle sych lle nad yw'r tymheredd yn gostwng islaw 2 radd nac yn codi uwchlaw 30 gradd. Wrth gymryd a phrosesu'r profion, dylent fod ar dymheredd ystafell (tua 15 i 30 gradd).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Bydd angen i leoliadau greu a chadw cofnod mewn perthynas â'r pecynnau profion, ynghyd â chofrestr i gofnodi'r pecynnau sy'n cael eu dosbarthu a rheoli'r cyflenwad.

## Pam nad yw plant/dysgwyr yn rhan o'r system brofi hon?

Mae'r cyngor o ran iechyd y cyhoedd yn nodi mai oedolion/staff yw'r risg fwyaf o ran trosglwyddo'r feirws mewn unrhyw leoliad. Nid yw plant a dysgwyr wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, felly, yn y system brofi. Byddwn yn parhau i weithredu yn ôl yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym, ac yn adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd o ran pwy sy'n gymwys i gael eu profi.

## Why are younger children not included in this testing approach?

Current Public Health data shows that the prevalence of COVID-19 is higher in the older year groups and decreases with age. It is acknowledged that upper secondary and FE college age groups are significantly less likely to become unwell from COVID-19 however the evidence does suggest that this age group probably do transmit the virus to the same level as adults whereas young children do not transmit to the same levels. As such younger children are currently not included in the testing approach.

We will continue to be led by what the data is telling us and will keep eligibility of testing under review.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Profion asymptomatig: lleoliadau addysg a gofal plant** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-lleoliadau-addysg-gofal-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.